



Ffynhonnau Byw

Apêl Cymorth Cristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023–24

cymorth
cristnogol
christian
aid

GWEDDŪWN

Dduw Cariad,
ym mhob cenhedlaeth
dangosaist dy hun fel un sy'n cofio'r
tlawd a'r newynog,
yn amddiffyn y bregus a'r gwan,
ac yn anrhydeddu'r rhai hynny sy'n 'neb'.
Ac ym mhob oes gwahoddaist rai i ymuno â thi
yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder a heddwch,
urddas a chydaddoldeb i bawb.

Diolch am y cyfle newydd hwn i ymuno gyda Chymorth Cristnogol a'i phartneriaid a chefnogi'r
ymdrech dros gyfiawnder, yng Ngholombia ac ar draws y byd.

Dduw Cariad, drwy ein hapêl, Ffynhonnau Byw,
heria ni yn ein dewisiadau ffôl a'n ffordd o fyw barus heddiw,
a helpa ni i gwestiynu'r hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed nawr.

Tra byddwn ni'n gwneud ein dewisiadau hunanol bod dydd i brynu ein moethbethau,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u dewisiadau sylfaenol wedi eu cymryd oddi wrthynt.

Tra byddwn ni'n llusgo'n traed ynglŷn â'n defnydd o danwydd ffosil,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u cartrefi yn cael eu sgubo ymaith gan lifogydd a'u tir yn llosgi gan
sychder.

Tra byddwn ni'n anghytuno am sut orau i warchod yr amgylchedd,
yr wyt ti'n gweld y rhywogaethau sy'n diflannu a'r cymunedau sy'n cael eu dadleoli.

Tra byddwn ni'n codi ein llais dros ein hawl i wneud yr hyn a fyynnwn,
yr wyt ti'n gweld y rhai sy'n cael eu bygwth a'u lladd am siarad dros bobl heb lais.

Tra byddwn ni'n dadlau am werth cyfiawnder rhywedd,
yr wyt ti'n gweld y gwragedd sy'n cael eu gwahardd rhag perchen tir.

Tra byddwn ni'n chwilio am yr addysg orau i'n plant,
yr wyt ti'n gweld y rhai na fydd byth yn goroesi plentyndod.



Ffynhonnau Byw

Apêl Cymorth Cristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023–24

cymorth
cristnogol
christian
aid

Dduw Cariad, Dduw Cariad, bydded i'n hapêl, Ffynhonnau Byw, agor ein llygaid a'n clustiau
i weld y byd yr wyt ti yn ei weld
a chlywed y lleisiau yr wyt ti yn eu clywed.
I sefyll mewn undod gyda chymunedau yng Ngholombia ac o amgylch y byd,
i ymateb i'w hangen,
i wrando ar eu dyheadau am gyfiawnder,
i rannu eu dicter a'u gobeithion,
i ymddiried ynddynt,
a chydweithio gyda hwy dros yfory gwell,
gan helpu dwyn y greadigaeth gyfan i undod yng Nghrist.

AMEN